Cylchlythyr GISDA

Hydref 09

CYFARFOD CYFFREDINOL LLWYDDIANNUS

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol GISDA yng Nghlwb Pêl-droed Caernarfon. Roedd yn gyfarfod llwyddiannus dros ben gyda nifer yn mynychu. Gwych o beth oedd gweld fod cymaint o bobl ifanc wedi dod. Cafwyd anerchiadau byr gan Mair, y Prif Weithredwr; Tudor, Cadeirydd GISDA; Hywel Williams AS a'r Cyng. Hywel Roberts, Maer Caernarfon cyn clywed gan ein gŵr gwadd am eleni, John Burns. Rhannodd llawer o'i brofiadau personol gyda ni, gan gynnwys ei brofiadau gyda'r cynllun DORE. Mae DORE yn gynllun sy'n rhoi cymorth ac arweiniad i bobl sy'n dioddef gyda dyslecsia ac anawsterau dysgu eraill. Diolch iddo am rannu gyda ni ac yn arbennig am yr anogaeth a roddwyd ganddo i'r bobl ifanc. Ynghyd â'r siaradwyr, cafwyd cyflwyniad o gynllun Llwybr Llwyddiant, gan rannu'r hyn mae'r bobl ifanc wedi bod yn ei wneud dros y flwyddyn ddiwethaf. Rhoddwyd y cyfarfod, hefyd, gyfle i lansio ffilm fer newydd GISDA. Pwrpas y ffilm yw rhoi modd o gyflwyno'r cwmni a'r gwaith sy'n cael ei wneud o safbwynt y bobl ifanc. Mae criw o bobl ifanc wedi chwarae rhan allweddol wrth greu'r ffilm. Bydd yn cael ei ddefnyddio i roi cyflwyniadau i bobl ifanc ac asiantaethau eraill. Diolch i Phil Steed am gynorthwyo gyda chynhyrchu'r ffilm.

Bu'n rhaid ffarwelio gydag un o gyfeillion pennaf GISDA. Mae Bobby Haines wedi bod yn aelod o Fwrdd Rheoli'r cwmni ers sefydlu GISDA nôl ym 1985 ond wedi penderfynu bod yr amser wedi dod iddo gamu'n ôl. Cyflwynwyd cerdd iddo wedi'i hysgrifennu gan Lynda, sy'n weithiwr

allweddol yma'n GISDA. Hoffai GISDA ddiolch i Bobby am ei waith a'i gefnogaeth ddiddiwedd dros y chwarter canrif ddiwethaf, gan ddymuno'r gorau iddo a gobeithio na fydd yn ddiarth yn y dyfodol.

Bobby

You're a dedicated, caring
a lovely gentleman
who's always helped others
in every way you can

Everybody knows you,
well known in our town
be it council, church or mayor
you've never let us down

In 1985 you knew
that there was a need
so that's how GISDA started
and blossomed from a seed

For all your time and effort
As a member on GISDA's Board
you have an MBE
but truly you're a lord

So GISDA thanks you Bobby
for all that you have done
you truly have been brilliant
not to mention a lot of fun

THANK YOU

CYSYLLTWCH Â NI

Tŷ Rhydalun, Penrallt Uchaf, Caernarfon, Gwynedd LL55 1PR www.gisda.co.uk
Ffôn –01286 671153 Ffacs – 01286 671182 gisda@gisda.co.uk

POBL IFANC GISDA YN SIARADWYR YNG NGHYNHADLEDD SHELTER

Derbyniwyd gwahoddiad gan Shelter i bobl ifanc o GISDA roi cyflwyniad yn eu cynhadledd flynyddol. Derbyniwyd y cynnig hwn gan Steph a Rachel. Aeth y ddwy

lawr i Gaerdydd gyda Catrin ac Elin Sion. Rhoddwyd gyflwyniad byr o'r cwmni gan Catrin a disgrifiad o'r hyn mae Gweithiwr Alleddol yn ei wneud gan Elin. Yn dilyn hyn, rhoddodd Steph a Rachel gyflwyniad o'r gwasanaeth y maent wedi'i dderbyn gan GISDA.

Yna, roedd modd i'r bobl a oedd yn bresennol holi'r merched ymhellach.

Roedd Catrin ac Elin yn falch iawn o'r ddwy ohonynt. Mae modd gweld cyflwyniadau Rachel a Steff yn yr Adroddiad Blynyddol.

CYFNEWIDFA IEUENCTID YN NENMARC

Cafodd saith o bobl ifanc a dau aelod staff y cyfle i fynychu cyfnewidfa ieuenctid yn Nenmarc. Ynghyd a grwp o Gymru a Denmarc, yn bresennol oedd grwpiau o'r Eidal a Lithuania. Cafodd Abi, Chris, Tom, Steph, Rachel, Elena a Sean, ynghyd â Sonia a Jen y cyfle i gymryd rhan mewn gweithdai dawns; drymio o affrica; electronica a sgiliau syrcas. Mae'r profiadau yma'n rhoi'r cyfle i'r bobl ifanc fagu hyder, cyfeillgarwch a sgiliau. Mewn cyfarfod Bwrdd Rheoli daeth Chris, Sean a Rachel gyda Jen i rannu eu profiadau hwy o fynychu'r gyfnewidfa gan egluro'r hyn maent wedi'i gael o'r profiad. Yn wir, roedd y ffaith iddynt roi cyflwyniad i'r Bwrdd yn brawf ynddo'i hun o'r hyder y mae'n bosib iddynt ei ddatblygu wrth gymryd rhan mewn profiadau o'r fath.

COLLED CYLLID

Siomedig a trist iawn oedd y newyddion a dderbyniwyd yn ddiweddar bod posib inni golli'r cyfraniad rydym yn ei dderbyn gan Adran Dai Cyngor Gwynedd; cyfraniad yr ydym wedi'i dderbyn ers cychwyn GISDA.

Mae GISDA yn cynnig nifer o wasanaethau sy'n galluogi Cyngor Gwynedd i ymateb i rai o'u gofynion statudol, gan gynnwys lletya a chefnogi pobl ifanc sengl, rhieni sengl, merched beichiog a theuluoedd sydd rhwng 16 a 25 oed ac o Wynedd; Gwasanaeth Cynghorydd Personol; Gwasanaeth Addysgol; Gwasanaeth cyfeiriadau 24 awr y dydd drwy'r flwyddyn; Gwasanaeth Ymestyn allan a Gwasanaeth cwnsela a therapeutic arall.

Derbyniwn fod gan Gyngor Gwynedd dasg enfawr ac anodd o'i blaen i geisio sicrhau arbedion oherwydd toriadau yn ei lwfansau o'r Cynulliad ond byddai'r golled yma'n effeithio ar ein gallu i gynnig ein gwasanaeth i'r raddfa rydym yn ei gynnig ar hyn o bryd. Rhaid cofio, llynedd, o'r 137 gafodd wasanaeth roedd 92 o'r rhain yn gymwys i wasanaeth statudol ac roedd cyfrifoldeb ar yr Adran Dai i gartrefu 57 o'r rhai gan eu bod yn feichiog neu gyda phlentyn.

Ein pryder, felly, yw pwy fydd yn cynnig y gwasanaeth i'r rhain yn y dyfodol. Er mai cyfanswm bychan yw'r pot ariannol cyfan i Gyngor Gwynedd, mae'n sicrhau ein bod ar gael 24 awr bob dydd o'r flwyddyn ac yn barod i gynnig gwasanaeth ym mhob cwr o Wynedd. Mae'n gwestiwn gennym os bydd Cyngor Gwynedd yn gallu cynnig gwasanaeth i'r rhai sydd â hawl iddo am yr un gost neu bris llai.

Mae'r siwrne o fod yn blentyn i oedolyn yn her i bob person ifanc, ond i rai mae'r her hwn yn rhy fawr neu'n rhy gymleth iddynt allu gwneud y trawsnewid hwn heb gefnogaeth. Gall nifer ddarganfod eu hunain yn ddigartref, neu'n methu cadw eu tenantiaeth a byddai hyn yn arwain at straen ar adnoddau prin y Gyfadran Gofal.

Yn dilyn gwneud cais i'r Cyngor ail-ystyried, rydym ar ddeall fod y penderfyniad wedi'i ohirio am flwyddyn.

DYSGU PYSGOTA

Aeth Rachel, Daniel a Sean i ddysgu pysgota ar lan afon Glaslyn

gyda Winston Roddick, llywydd anrhydeddus GISDA. Yn ôl y lluniau, cafwyd tipyn o lwyddiant!

*** LLONGYFARCHIADAU ***

Mae Cynllun Llwybr Llwyddiant GISDA wedi dod yn ail am wobr Val Feld. Rhoddir y wobr bob blwyddyn i gynllun sy'n mynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â menywod a digartrefedd. Aeth Gyn ac Elin, ynghyd â Rachel a Sean i Abertawe i dderbyn y wobr.

Yn ogystal â mynychu'r gynhadledd, cafwydd gyfle i fwynhau'r ddinas.

DYSGU DRYMIO

Daeth Gwyn o ganolfan William Mathias i ddysgu criw sut i ddrymio a chadw tempo gyda drymiau Affricanaidd.

DA IAWN CHI!

Llongyfarchiadau mawr i Sean; Bethan; Stephanie; Rachel; Alisha; Sian; Laura; Christina; Tina; Melanie ac Emma. Mae'r criw wedi llwyddo i gwblhau unedau Llwybr Llwyddiant, ac wedi derbyn tystysgrifau Rhwydwaith Co-leg Agored Cymru. Cyflwynwyd rhai o'r tystysgrifau gan Tudor, Ca-deirydd GISDA mewn cyfarfod Bwrdd Rheoli.

CYNRYCHIOLAETH

Bu Iola a Claire yn Sioe Amaethyddol Meirionnydd lle roedd gan GISDA stondin. Bu'n gyfle gwerthfawr arall i hyrwyddo gwaith y cwmni.



GWAITH CELF

Fel rhan o gynllun Llwybr Llwyddiant, cynhaliwyd sesiynau celf. Roedd hyn yn gyfle i'r bobl ifanc gael mynegi eu hunain mewn ffurf amgen. Cafodd y gwaith celf ei arddangos yn llyfrgell Caernarfon, yn ogystal â'r Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala. Roedd ymateb ffafriol iawn i'r gwaith.

GIG CODI ARIAN

Mewn ymgais i godi arian er mwyn medru galluogi'r bobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau, cynhaliwyd gig Gwibaith Hen Fran, gyda Creision Hud yn cefnogi. Roedd pawb a oedd yno yn gytûn ei bod yn noswaith gwerth chweil. Diolch yn fawr i'r grwpiau am berfformio.

'STEDDFOD, 'STEDDFOD

Unwaith eto eleni, bu GISDA yn yr eisteddfod genedlaethol fel rhan o stondin trydydd sector Gwynedd. Roedd yn gyfle i godi ymwybyddiaeth am ddigartrefedd. Gwych oedd clywed mai'r stondin honno enillodd y wobr am stondin orau'r trydydd sector ar y maes.

MWYHAU CADW'N HEINI

Mae nifer yn GISDA wedi penderfynu trio cadw'n heini, ac wedi dechrau chwarae pêl-droed yn rheolaidd. Mae'r bobl ifanc wedi penderfynu ymuno'n yr hwyl. Da iawn!

AWR HAWDD

Wedi cyfnod i ffwrdd yn teithio, braf yw cael Osian yn ôl yn cydweithio gyda'r staff a'r bobl ifanc am gyfnod.

Mae wedi dechrau ar gynllun 'Awr Hawdd'. Cynllun peilot ydyw sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc greu prosiect eu hunain ar weithdai sy'n datblygu technegau theatr fforwm.

Yn fras, bydd pobl ifanc GISDA yn gyfrifol am ymchwilio i wahanol weithdai; sefydlu pwyllgor; dewis gweithdai; ymgynghori â gweddill pobl ifanc y cwmni yn ogystal a'r staff; trefnu'r gweithdai; hyrwyddo'r cynllun a chymryd rhan. Byddai hyn yn taro rhai o nodweddion unedau Llwybr Llwyddiant yn ogystal â chyd fynd a rhai o elfennau asesu SEREN.

Bydd dau grŵp, un yn Ne Gwynedd ar llall yn y Gogledd. Mae syniadau am weithdai wedi cael eu trafod yn barod ac mae rhai yn cynnwys symudiadau hip-hop, gwaith graffiti a capoeira - cymysgedd o ddull dawns a 'martial art' o Frasil. Yn ogystal, bydd cyfle i bump o bobl ifanc fynychu cyfnewidfa ieuenctid yng Nghonwy yn ystod mis Hydref.

Mae'r cynllun hwn wedi'I ariannu drwy grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wella'r Gwasanaethau Ieuenctid 2009/10

Mae'n siŵr bydd mwy o straeon Awr Hawdd yn y rhifyn nesaf o'r cylchlythyr.

DE GWYNEDD YN DOD I'R BRIG

Yn ddiweddar cynhaliwyd taith gerdded a chwis i'r bobl ifanc. Cafwyd taith fyr o amgylch

Blaenau Ffestiniog i godi ymwybyddiaeth y bobl ifanc o hanes yr ardal. Yn dilyn y daith, cafwyd cwis wedi'i baratoi gan Mair ynghyd a tamed i'w fwyta—Gogledd Gwynedd yn erbyn y De—Llongyfarchiadau i gynllun De Gwynedd am ennill y cwis!

DILLAD HARDD

Trefnwyd dwy noson gan Elin Meirion yn ddiweddar. Y cyntaf yn canolbwyntio ar ffasiwn. Daeth Sara Bowen i ddangos sut mae ailgylchu dillad drwy eu diweddaru. Roedd yr ail noson yn canolbwyntio ar harddwch. Daeth Susan Hughes i Hafan i roi noson o faldod i'r bobl ifanc. Diolch i'r ddwy.

CYNHADLEDD GADAEL GOFAL

Ym mis Medi, mynychodd Nerys Gynhadledd Gadael Gofal yn Llundain. Thema'r gynhadledd oedd llety addas i holl bobl ifanc sy'n gadael gofal. Y nod yw trafod llety yng nghyfarfodydd adolygu'r bobl ifanc ac y bydd Swyddog Adolygu annibynnol yn herio addasrwydd y llety. Mae disgwyl, hefyd, y bydd y person ifanc wedi ymweld â'r llety cyn symud i mewn.

Mae trafodaethau wedi'u cynnal ynghylch rôl y Cynghorydd Personol. Y gobaith yw y bydd y person ifanc yn gallu ailddechrau hawl i'r gwasanaeth os yw'n dychwelyd i addysg ar ôl eu pen-blwydd yn 21 (hyd yn oed os yw hyn ar gyfer cyrsiau sgiliau sylfaenol yn unig).

Uchafbwynt y gynhadledd oedd y Panel Trafod. Roedd y panel yn cynnwys 3 o bobl ifanc a oedd wedi bod mewn gofal, ac wedi derbyn gwasanaeth gan y Tîm Ôl Ofal a Chynghorydd Personol. Siaradodd y tri yn agored am yr hyn y maent yn ystyried i fod yn dda am y gefnogaeth a dderbyniwyd a'r hyn y gellid ei wella. Eu neges oedd eu bod am gael eu trin fel unigolion a'u bod yn teimlo ei fod yn bwysig eu bod yn dysgu sgiliau ymarferol sydd eu hangen ar gyfer byw yn annibynnol ee coginio, defnyddio peiriant golchi ac ati

Pwysleisiwyd, hefyd, y pwysigrwydd na ddylai gweithwyr roi rhwystrau i fyny wrth weithio gyda phobl ifanc gan fod pobl ifanc yn ei theimlo'n anodd bod yn agored. Mae galwad ffôn pum munud o hyd, unwaith yr wythnos yn cael effaith gadarnhaol ar fywyd person ifanc.